**Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25.**

**This response was submitted to the Finance Committee consultation on the Welsh Government Draft Budget 2024-25.**

**WGDB_24-25 50 : Ymateb gan: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLLC) | Response from: Welsh Local Government Association (WGLA)**

---

# Tystiolaeth CLlLC

30 Tachwedd 2023

# Y Pwyllgor Cyllid a’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Craffu ar Gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 24-25

Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Llais Cynghorau Cymru**
Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol sy’n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol.

Rydym yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru.

Mae’r 22 cyngor yng Nghymru’n aelodau o’r gymdeithas ac mae’r 3 awdurdod tân ac achub a’r 3 awdurdod parc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

**Rydym ni’n credu bod y syniadau sy’n newid bywydau pobl yn digwydd yn lleol.**
Mae cymunedau ar eu gorau pan fyddant yn teimlo bod ganddynt gysylltiad â’u cynghorau trwy ddemocratiaeth leol. Trwy hyrwyddo, hwyluso a chyflawni’r cysylltiadau hyn, gallwn ni ddatblygu democratiaeth leol fywiog sy’n galluogi cymunedau i ffynnu.

**Ein prif nod** yw hyrwyddo, diogelu, cefnogi a datblygu llywodraeth leol ddemocrataidd a buddiannau cynghorau yng Nghymru.

**Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth drwy**
- Hyrwyddo swyddogaeth a statws cynghorwyr ac arweinwyr cynghorau
- Sicrhau cymaint o ddisgresiwn lleol â phosibl o ran deddfwriaeth neu ganllawiau statudol
- Cefnogi a sicrhau cyllid cynaliadwy a hirdymor i gynghorau
- Hybu gwelliant dan arweiniad y sector
- Annog democratiaeth leol fywiog, gan hybu mwy o amrywiaeth
- Cefnogi cynghorau i reoli eu gweithlu’n effeithiol

## Trosolwg

1. Mae'r papur tystiolaeth hwn yn mynd i'r afael â'r cwestiynau a ofynnwyd gan y pwyllgor yn atodiad 2 i'r llythyr comisiynu. Mae'n seiliedig yn bennaf ar y papur a gyflwynwyd gennym i Lywodraeth Cymru yng nghyfarfod yr Is-grŵp Cyllid ar 25 Hydref.

2. Roedd y rhan fwyaf ohono yn cynnwys ein hasesiad o bwysau gwario llywodraeth leol sydd wedi parhau'n gyson uchel yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Rydym wedi diweddaru ein hamcangyfrifon o'r pwysau yn 2023-24 a 2024-25 ar sail cynlluniau ariannol tymor canolig awdurdodau lleol. Mae'r rhain yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg llawn o gynghorau a gwasanaethau tân ac achub a gynhaliwyd yn ystod mis Awst/Medi gyda chymorth Cymdeithas Trysoryddion Cymru (SWT).

3. Ers i bapur yr Is-grŵp Cyllid gael ei gyflwyno i'r grŵp, rydym wedi dod yn ymwybodol o ddau ddatblygiad pellach. Yn gyntaf, roedd cyhoeddi Datganiad yr Hydref gan Lywodraeth y DU yn dangos cynnydd yng nghyfraniadau cyflogwyr ar gyfer cynllun pensiwn athrawon o 5%, o 23.6% i 28.6% o 1 Ebrill 2024 a fydd yn costio £64.3m. Mae'r costau hyn wedi eu seilio ar ddim cynnydd o ran tâl ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024/25. Bydd ailbrisiad tebyg o gynllun pensiwn y gwasanaethau tân ac achub yn arwain at gynnydd cyffredinol mewn cyfraniadau cyflogwr ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub o £2.8m o 1 Ebrill 2024. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn tybio fod hyn yn cael ei ariannu'n llawn, fel yr oedd adeg yr ailbrisiad diwethaf.

4. Yn ail, ar ddiwedd mis Hydref, fe ddaethom yn ymwybodol na fyddai rhan o ddyfarniad cyflog athrawon ar gyfer 2023-24 yn cael ei ariannu ar sail reolaidd o 2024-25. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol o £21.3m heb gyllid ar gyllideb y flwyddyn nesaf er gwaethaf sicrwydd ei fod yn cael ei ariannu'n llawn yn llythyr y Gweinidog ar 9 Mawrth 2023.

## Casgliad

5. Mae hyn yn golygu y gallwn ailbroffilio'r amcangyfrifon sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad gwreiddiol. Yn 2024-25 fe fydd awdurdodau lleol yn wynebu pwysau a amcangyfrifir o £809m yn hytrach na £720m. Yn 2025-26 fe fydd yn £604m a £613m yn 2026-27.

6. Os yw'r cyfraniadau pensiwn yn cael eu hariannu, ond nid pwysau'r cyflogau, bydd y bwlch blynyddol cyfanredol yn y gyllideb ym mhob un o'r 3 blynedd nesaf yn £432m, £429m a £433m yn y cyfnod sy'n arwain at 2026-27. Gallai cyfanswm y bwlch ariannu cronnol fod yn £1.294 biliwn. Bydd yn rhaid i'r mesurau y bydd cynghorau'n eu gweithredu i fynd i'r afael â'r bwlch hwn fod yn eithafol.

**ATODIAD A**

## Is-grŵp Cyllid

25 Hydref 2023

---

### RHAGOLYGON ARIANNOL

### Pwrpas


7. Mae’r papur hwn yn cyflwyno’r asesiad diweddaraf o bwysau gwariant cynghorau dros y tair blynedd nesaf yn seiliedig ar gynlluniau ariannol tymor canolig awdurdodau lleol. Mae hyn yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg llawn o gynghorau a gwasanaethau tân ac achub a gynhaliwyd yn ystod mis Awst/ Medi gyda chymorth Cymdeithas Trysoryddion Cymru (SWT). Ceir crynodeb o’r canlyniadau yn Atodiad I. Mae'r papur yn cynnwys gwybodaeth am y sefyllfa yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2023-24 a grynhoir yn Atodiad II. Bydd hyn yn gofyn am gyfuniad o doriadau, arbedion effeithlonrwydd, a defnyddio cronfeydd wrth gefn i fantoli cyllidebau.

### Crynodeb

8. Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi adrodd yn gyson y bydd y pwysau sy’n cronni ar draws llywodraeth leol mor uchel ag yr oeddent y llynedd wrth i ni gynllunio ar gyfer 2022-23. Ers cyfarfod yr Is-grŵp Cyllid ym mis Mawrth, rydym wedi amcangyfrif pwysau o rhwng £600 a £750 miliwn yn 2024-25 ac mae'r arolwg yn cadarnhau bod hyn yn £720m. Byddai hyn yn gofyn am gynnydd o bron i 10% mewn gwariant refeniw net.[1] Mae hyn yn disgyn i £516 miliwn a £524 miliwn yn 2025-26 a 2026-27, yn y drefn honno. Gyda’i gilydd, mae’r pwysau sy’n cronni yn y system, a’r bwlch yn y gyllideb sy’n deillio o hynny, yn golygu bod y rhagolygon yn hynod o llwm a bydd yr opsiynau ar gyfer llawer o wasanaethau lleol yn annymunol.

[1]Cyfanswm y gyllideb gwariant refeniw net ar gyfer 2023-24 yw £7.373 biliwn (Ffynhonnell: Ffurflenni Cyfrif Refeniw Llywodraeth Cymru)

**Ffigur 1:** Pwysau cyllidebol yn ôl gwasanaeth, 2024-25 i 2026-27, £000oedd




Ffynhonnell: Arolwg Cymdeithas Trysoryddion Cymru 2023

9. Mae'r pwysau y flwyddyn nesaf tua 2.5 gwaith y pwysau y byddem fel arfer yn disgwyl ei weld ac mae ffigur 1 uchod yn dangos sut mae'r rhain wedi'u gwasgaru ar draws y meysydd gwasanaeth eang. Mae gofal cymdeithasol yn cyfrif am 36% (£261 miliwn) o bwysau yn 24-25, mae ysgolion yn cyfrif am 23% (£164 miliwn) o'r pwysau ac mae gwasanaethau eraill yr awdurdod lleol yn cyfrif am y 41% sy'n weddill (£295 miliwn). Mae'r dadansoddiad llawn i'w weld yn Atodiad I.

10. Er bod y pwysau yn y flwyddyn ariannol bresennol wedi'u gwrthbwyso gan setliad gwell na'r disgwyl, mae'n dod yn amlwg bod pwysau ychwanegol yn ystod y flwyddyn gwerth £219 miliwn. Nodir hyn yn fanylach yn Atodiad II. Mewn rhai awdurdodau, mae'r gorwario rhagamcanol hwn wedi mynd yn ddifrifol dros ben gydag ystod o fesurau'n cael eu rhoi ar waith i fantoli cyllidebau. O ran dadansoddiad gwasanaeth, gofal cymdeithasol yw 50% o'r gorwariant, neu £109 miliwn, gyda gofal plant cost uchel a galw cynyddol am ofal cymdeithasol oedolion yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r costau afreolus. Mae addysg ac ysgolion yn cyfrif am tua 22%, neu £47 miliwn o gyfanswm y gorwariant. Mae gwasanaethau eraill y cyngor yn cyfrif am £63 miliwn sydd ychydig yn llai na 30% o'r gorwariant cyffredinol.

11. Ffordd arall o edrych ar hyn yw bod ychydig dros draean o'r gorwariant a ragwelir, tua £72 miliwn, yn deillio o chwyddiant (gan gynnwys chwyddiant cyflog), sy'n llawer uwch na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol pan osodwyd cyllidebau yn gynnar yn 2023. Fodd bynnag, mae llawer o'r pwysau yn ystod y flwyddyn yn deillio o alw nas rhagwelwyd, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol, ac mae'n cyfrif am 50% neu £109 miliwn (sydd, drwy gyd-ddigwyddiad, yr un faint â chyfanswm y pwysau ar ofal cymdeithasol).

12. Ar yr ochr ariannu, y cynnydd arfaethedig mewn Cyllid Allanol Cyfun (AEF) ar gyfer 2024-25 yw £169 miliwn, neu 3.1%, a fydd yn cwmpasu ychydig dros chwarter y

pwysau yn y flwyddyn ariannol. Mae'r amcangyfrifon diweddaraf gan Ddadansoddi Cyllid Cymru ar gyfer y blynyddoedd dilynol yn dangos bod y rhagolygon ar gyfer cyllid yn arbennig o llwm, gyda chynghorau'n dibynnu'n bennaf ar dreth y cyngor am unrhyw gyllid ychwanegol.

13. Heb gyllid ychwanegol, ni ellir gorbwysleisio'r risg i wasanaethau'r cyngor gan gynnwys addysg a gofal cymdeithasol. Y bwlch yn y gyllideb flynyddol gyfanredol ym mhob un o'r 3 blynedd nesaf yw £411 miliwn, £408 miliwn a £412 miliwn yn y cyfnod yn arwain at 2026-27. Gallai cyfanswm y bwlch ariannu cronnol fod yn £1.232 biliwn. Bydd rhywfaint o'r bwlch yn cael ei lenwi trwy arbedion effeithlonrwydd a mesurau eraill ond o ystyried maint yr her, mae llawer o gynghorau yn paratoi am doriadau gwasanaeth ar raddfa fawr a cholli swyddi a fydd yn arwain at filoedd o bunnoedd.


## Dadansoddiad

14. Mae Llywodraeth Cymru wedi disgrifio ei sefyllfa gyllidebol fel "y sefyllfa ariannol fwyaf anodd ers datganoli". Dros yr haf, gofynnwyd i weinidogion y cabinet edrych ar y sefyllfa yn ystod y flwyddyn yn 2023-24 wrth baratoi ar gyfer cylch cyllideb 2024-25. Er bod y darlun ar gyfer y flwyddyn nesaf yn llwm, mae Dadansoddi Cyllid Cymru yn adrodd bod cynlluniau gwariant cyhoeddus tynn dros y blynyddoedd i ddod hefyd yn rhoi 'darlun pryderus ar gyfer y tymor canolig'.

15. Cadarnheir y sefyllfa tymor canolig gan Gyllideb Werdd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. Gydag economi'r DU yn sownd rhwng twf gwan ar y naill law a'r risg o chwyddiant cyson uchel ar y llaw arall, maent yn datgan: "Rydym mewn helynt cyllidol echrydus gan fod twf isel a thaliadau llog uchel ar ddyledion yn golygu nad oes lle i symud." Rhaid i bolisi cyllidol ac ariannol daro cydbwysedd gofalus felly gallai pecyn heb ei ariannu o doriadau treth cyn yr etholiad fod yn anghynaladwy.

16. Yn Ffigur 2 mae pwysau cyllidebol o 2024 i 2027 wedi'u categoreiddio o dan 4 prif bennawd. Mae chwyddiant cyflog a chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflog yn ogystal â chostau comisiynu ym maes gofal cymdeithasol yn gostau anochel y mae'n rhaid eu talu dim ond i aros yn ein hunfan. Mae'r rhain yn cyfrif am bron i £500 miliwn yn y flwyddyn ariannol nesaf gan ddisgyn i tua £400 miliwn yn y ddwy flynedd ddilynol. Gyda bargeinion cyflog, mae cynghorau wedi bod yn adeiladu disgwyliadau sydd ymhell islaw'r realiti.

**Ffigur 2:** Pwysau Cyllideb yn ôl math, 2024-25 a 2026-27, £000oedd




Ffynhonnell: Arolwg Cymdeithas Trysoryddion Cymru 2023

Chwyddiant cyflogau a chwyddiant nad yw’n gysylltiedig â chyflogau

17. Ar y cyfan, mae’r ymatebion i’r arolwg yn dweud wrthym fod y cynnydd heb ei gynllunio yn y bil cyflogau yn 23-24 yn dod i £31 miliwn: £9 miliwn ar gyfer ysgolion, £5 miliwn ar gyfer gofal cymdeithasol a £17 miliwn ar gyfer gwasanaethau eraill y cyngor. Mae hyn yn well na'r rhagdybiaethau isel a wnaed y llynedd. Fel cyflogwyr cyfrifol, sydd wedi ymrwymo i bartneriaeth gymdeithasol, byddwn yn cymryd rhan lawn mewn trafodaethau gyda’r undebau dros y cyfnod nesaf. Fel y nodwyd uchod, mae cynghorau yn gwneud rhagdybiaethau ar gyfer £267 miliwn o bwysau cyflog y flwyddyn ariannol nesaf (bron i 40% o gyfanswm y pwysau), a £218 miliwn a £219 miliwn yn y ddwy flynedd ddilynol hyd at 26-27.

18. Mae’r tri undeb Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol (NJC LGS) (UNSAIN, GMB ac Unite) wedi cyflwyno eu hawliad tâl ar gyfer gweithwyr gwasanaethau llywodraeth leol (‘Llyfr Gwyrdd’) ar gyfer 2023-24 ar 30 Ionawr. Mae’r hawliad yn datgan fod gweithwyr y cyngor wedi ‘…dioddef degawd o ddyfarniadau cyflog is na’r cyfartaledd a rhewi cyflogau …[ac]…wedi colli cyfartaledd o 25% o werth eu colofn gyflog ers 2010. Mae’r hawliad tâl wedi cael ei osod yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw, pwysau chwyddiant a heriau recriwtio a chadw staff.

19. Ym mis Chwefror 2023, ymatebodd y cyflogwyr cenedlaethol i hawliad cyflog yr undeb gyda chynnig llawn a therfynol o £1,925 ar gyfer yr holl bwyntiau ar golofn gyflog yr NJC a 3.88% ar gyfer yr holl bwyntiau cyflog uwchlaw brig colofn gyflog yr NJC. Ar gyfer y rhai sydd ar y cyflogau isaf (sy’n ennill £20,441 y flwyddyn ar hyn o bryd), mae’r cynnig yn cyfateb i gynnydd o 9.42% eleni; sy’n golygu y bydd eu cyflog wedi cynyddu £4,033 (22.0%) dros y ddwy flynedd ers mis Ebrill 2021.

20. Gwrthododd y tri undeb llafur NJC LGS y cynnig a phleidleisiodd yr aelodau dros weithredu diwydiannol. Mae Cyflogwyr Llywodraeth Leol wedi ategu bod y cynnig yn llawn ac yn derfynol.

21. Cynhaliodd y tri undeb llafur NJC LGS bleidleisiau dadgyfunedig ar lefel leol, ar sail cyngor neu wasanaeth unigol, yn hytrach na phleidlais genedlaethol. Ni ddychwelodd aelodau undeb llafur Unsain bleidlais dros weithredu diwydiannol a deallir eu bod yn awyddus i weld penderfyniad cyflym fel bod y dyfarniad cyflog yn cael ei gymhwyso cyn gynted â phosibl. Dychwelodd Unite bleidlais gadarnhaol dros weithredu diwydiannol mewn tri chyngor. Mae niferoedd yr aelodaeth yn isel yn gyffredinol ond wedi’u crynhoi mewn gwasanaethau megis gwastraff a gwasanaethau stryd, gyda streic yn achosi rhywfaint o aflonyddwch o ganlyniad mewn dau o’r tri chyngor. Mae’r bleidlais ar gyfer GMB, yr undeb llafur mwyaf ond un, i fod i gau ar 24 Hydref 2023 ac mae disgwyl i Gyflogwyr Llywodraeth Leol gyfarfod ar 2 Tachwedd 2023 i drafod y camau nesaf. Os bydd GMB yn methu â sicrhau pleidlais dros weithredu diwydiannol, y gobaith yw y bydd y dyfarniad cyflog yn cael ei dderbyn a'r anghydfod presennol yn dod i ben.

22. Arweiniodd gweithredu diwydiannol gan Athrawon ym mis Chwefror 2023 at agor trafodaethau Llywodraeth Cymru ar gyflog a llwyth gwaith. Diweddarwyd Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) ar gyfer 2022/23 ym mis Ebrill 2023 i gynyddu’r dyfarniad cyflog o’r 5% y cytunwyd arno’n flaenorol i 6.5% a darparu ar gyfer cyfandaliad ychwanegol o 1.5% heb ei gyfuno ar gyfer 2022/23 yn unig, wedi'i ôl-ddyddio i 01 Medi 2022. Gosodwyd dogfen *Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru)* ar gyfer 2023/24 ar 05 Hydref 2023 a rhagwelir y daw i rym ddiwedd mis Hydref. Bydd hyn hefyd yn cynnwys dyfarniad cyflog diwygiedig, wedi’i gynyddu o’r 3.5% arfaethedig i 5% ar gyfer 2023/24, wedi'i ôl-ddyddio i 01 Medi 2023.

23. Ar gyfer dyfarniad cyflog Gweithwyr Ieuenctid a Chymuned, cytunodd y JNC ar gynnydd o £1925 o 01 Medi 2022 ac mae Ochr y Cyflogwyr wedi derbyn hawliad cyflog ac amodau gan Undebau Llafur Ochr y Staff ar gyfer 2023. Prif elfen yr hawliad yw codiad cyflog o RPI + 2%. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt.

24. Mae’r Cyflogwyr Cenedlaethol yn parhau i fod mewn anghydfod ag Ochr Swyddogion Soulbury ar gyflog ar gyfer 2022. Gwnaeth y Cyflogwyr Cenedlaethol gynnig o £1925 ym mis Tachwedd 2022 ac nid ydynt wedi gallu dod i gytundeb cyflog. Cynhaliodd Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg (AEP) bleidlais ac maent wedi pleidleisio dros weithredu diwydiannol. Mae cyflogwyr wedi gwneud cynnig terfynol ar gyflog sy’n cynnwys cynnydd o £1,925 ar bob pwynt cyflog o 1 Medi 2022 a chynnydd o 3.5% ar bob pwynt cyflog o 1 Medi 2023.

25. Daeth yr NJC ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol (LAFRS) i gytundeb ar ddyfarniadau cyflog ar gyfer 2022 a 2023 ym mis Mawrth 2023.

Mae’r rhain yn cynrychioli cynnydd o 7% yn weithredol o 01 Gorffennaf 2022 a 5% yn weithredol o 01 Gorffennaf 2023.


26. Daeth yr NJC ar gyfer Rheolwyr Brigâd LAFRS i gytundeb ar ddyfarniadau cyflog ar gyfer 2022 a 2023 ar 31 Mai 2023. Mae’r rhain yn cynrychioli cynnydd o 4% o 01 Ionawr 2022 a chynnydd o 3.5% o 01 Ionawr 2023.

27. Cytunodd y JNC ar gyfer Crwneriaid ar ddyfarniad cyflog o 1.56% ar gyfer 2022/23, yn dod i rym ar 01 Ebrill 2022.

28. O ran chwyddiant nad yw’n gysylltiedig â chyflogau, mae’r costau amcangyfrifedig a wynebir gan gynghorau yn 2024-25 yn parhau i fod yn ystyfnig o uchel, sef tua £125 miliwn, tra bod arolygon blaenorol wedi dangos mai’r sefyllfa hanesyddol yw tua hanner hynny. Dywedodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) ym mis Mawrth 2023 ei bod yn disgwyl i chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) gyrraedd ei uchafbwynt ym mhedwerydd chwarter 2022 - ar ei gyfradd uchaf ers tua 40 mlynedd. Sbardunwyd y cynnydd yn bennaf gan brisiau nwy uwch yn bwydo i mewn cynnydd sydyn mewn biliau ynni domestig, ochr yn ochr â phrisiau tanwydd uwch a chwyddiant nwyddau byd-eang.

29. Mae disgwyl o hyd i chwyddiant ostwng yn gyflym i tua 0% o ganol 2024 i ganol 2026. Bydd biliau ynni yn disgyn yn ôl a bydd rhai pwysau cyflenwadau byd-eang yn cael eu gwrthdroi. Mae’r OBR yn disgwyl i chwyddiant wedyn ddychwelyd i’r targed o 2% erbyn diwedd y rhagolwg wrth i’r newidiadau mawr mewn prisiau ynni ddisgyn allan o’r cyfrifiad CPI blynyddol ac wrth i allbwn gyd-fynd yn fras â photensial cynhyrchiol yr economi.

**Ffigur 3:** Rhagolwg CPI y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol Mawrth 2023, %




Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol, OBR

30. Fodd bynnag, nid yw’r CPI a gyhoeddwyd ym mis Medi yn ymddwyn yn y ffordd a ragwelwyd. Er bod prisiau bwyd wedi gweld eu cwymp misol cyntaf mewn dwy flynedd, cododd prisiau tanwydd yn sydyn. Y canlyniad yw bod cyfradd gyffredinol chwyddiant wedi aros yn gyson ar 6.7%, gan ddod â’r rhediad o dri chwympiad misol yn olynol i ben. Ar ben hynny, mae rhagolwg diweddaraf Banc Lloegr (Awst 2023) yn disgwyl i chwyddiant barhau i ostwng yn 2024 a chyrraedd eu targed o 2% yn hanner cyntaf 2025.”

Addysg ac Ysgolion

31. Mae cynghorau wedi adrodd am bwysau gwerth £41 miliwn yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2023-24 sydd wedi’u hychwanegu at gyllidebau ysgolion, gyda chwarter hyn o ganlyniad i gyflogau. Y pwysau y mae ysgolion yn ei wynebu yn y dyfodol yw £164 miliwn yn 2024-25 sy’n cynrychioli cynnydd o 5.6% ar wariant refeniw net a gyllidebwyd [2]ar gyfer 2023-24. Mae pwysau blynyddol yn cynyddu mewn blynyddoedd dilynol gyda £134 miliwn arall a £131 miliwn yn 25-26 a 26-27 yn y drefn honno. Mae cyflogau’n cyfrif am dros 70% o gyfanswm chwyddiant ym mhob un o'r blynyddoedd.

32. Mae llawer o awdurdodau wedi cymryd yn ganiataol, yn gwbl briodol, y bydd y grantiau ychwanegol ar gyfer y fargen gyflogau i athrawon yn 22-23 ac yn 23-24 yn cael eu hariannu’n rheolaidd gyda’r grantiau’n cael eu trosglwyddo i’r llinell sylfaen ariannu. Mae rhagdybiaeth debyg yn cael ei gwneud ar gyfer newidiadau a ragwelir yng nghyfradd cyflogwyr ar gyfer pensiynau athrawon. Yn y gorffennol, mae cyllid wedi dod o’r Trysorlys pan fo’r gyfradd wedi cynyddu.

33. Mae hyd yn oed y cynghorau sydd wedi diogelu ysgolion yn y blynyddoedd diwethaf yn dweud na allant roi’r un gefnogaeth yn y dyfodol o ystyried maint y bwlch ariannu. Mae rhai wedi nodi pwysau ariannol ychwanegol ar ysgolion penodol sy'n gysylltiedig ag amddifadedd a gofynion Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sylweddol. Mae rhai datganiadau yn myfyrio ar sut mae penaethiaid yn dechrau adrodd am effaith ddinistriol y toriadau ar safonau addysgol - yn enwedig y gwaith bugeiliol / gofal estynedig y mae ysgolion yn ei wneud.

34. Mae canlyniad y pandemig a chostau ynni uchel yn parhau i roi pwysau ychwanegol ar ysgolion, a dywed rhai eu bod yn adolygu’r effaith y mae’r pandemig yn dal i’w chael ar ADY, presenoldeb ac ymddygiad. Fodd bynnag, yn gyffredinol mae ysgolion yn dechrau llosgi trwy eu cronfeydd wrth gefn ar y fath gyfradd fel eu bod yn ceisio benthyciadau i dalu am ddiffygion fel y dywedodd un ymateb: “…..disgwylir i falansau ysgolion ostwng 50% yn y flwyddyn. Disgwylir felly y bydd llawer mwy o ysgolion yn ceisio trefniant benthyciad yn 24-25.”

[2]Mae cyfanswm gwariant refeniw net wedi’i gyllidebu ar £7.373 biliwn yn 2023-24 (Ffynhonnell: Ffurflenni Cyfrif Refeniw Llywodraeth Cymru)

35. Mae'r rhan fwyaf o gynghorau yn gweithredu system o *Gytundebau Diffygion Trwyddedig* ac yn gwneud tybiaethau ynghylch lefelau ariannu yn y dyfodol. Mae'r rhagolygon y bydd rhai yn dychwelyd i fod ag arian dros ben yn dechrau edrych yn anobeithiol. Dywed un awdurdod ynghyd â hyn y bydd y mwyafrif, os nad pob un o'u hysgolion eraill, yn mynd i ddiffyg ariannol. Bydd rhai o'u hysgolion bach yn dod yn anghynaladwy oherwydd y byddai cymarebau disgyblion/athro yn disgyn i lefelau annerbyniol. Mae llawer o gynghorau bellach yn adrodd am risg sylweddol o ddiswyddiadau ymysg staff cymorth ac athrawon. Daeth i ben drwy ddweud y byddai’r cylch hwn yn cynyddu o dan yr amgylchiadau presennol gyda mwy o athrawon yn cael eu diswyddo a rhai ysgolion yn methu â bodloni’r cymarebau disgybl/athro a argymhellir.

36. Cafwyd llawer o sylwadau ynghylch sut y bydd angen adolygu cynaliadwyedd nifer o ysgolion bach wrth i bwysau ariannol barhau. Fodd bynnag, gallai cost gynyddol cludiant i ysgolion cyfagos negyddu'r arbedion a wneir yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Adroddodd un awdurdod bod adolygiad o ddarpariaeth chweched dosbarth hefyd ar y gweill. Bydd cynaliadwyedd ariannol y ddarpariaeth bresennol yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad hwn.

37. Mae risgiau a phwysau ychwanegol sylweddol mewn ysgolion yn parhau o ran darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), cynnydd yn nifer y disgyblion mewn addysg arbennig, canolfannau adnoddau a chyfleusterau i gefnogi disgyblion ag anawsterau cymdeithasol ac emosiynol. Credir bod rhan o hyn yn gysylltiedig ag ôl-effeithiau'r pandemig. Nid yw anghenion cynyddol a chymhlethdod disgyblion yn cael eu hadlewyrchu yn y cyllid.

<u>Gofal Cymdeithasol</u>

38. Mae Cynghorau’n parhau i fod yn hynod bryderus am y pwysau presennol sy’n wynebu gofal cymdeithasol. Mae'r ymatebion i'r arolwg yn dangos effaith barhaus y pwysau cynyddol o ran demograffeg, costau byw, y gweithlu a chwyddiant sy'n wynebu pob rhan o'r system gofal cymdeithasol. Mae galw cynyddol am wasanaethau, a'r cymhlethdod cynyddol yn ychwanegu at y pwysau a'r pryderon hyn. Yr effaith yw nad yw cyllidebau’n ymestyn mor bell ag yr oeddent yn arfer gwneud; mae gofalwyr di-dâl a theuluoedd yn wynebu mwy o straen, ac mae recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn heriau enfawr.

39. Mae arolwg SWT yn dangos y pwysau sylweddol yn ystod y flwyddyn a wynebir ar draws gwasanaethau oedolion a phlant. Nododd yr arolwg werth £109 miliwn o bwysau yn ystod y flwyddyn ym maes gofal cymdeithasol, sef tua 4.7% o’r gwariant

refeniw net a gyllidebwyd[3]. Mae hyn yn adeiladu ar orwariant o £93 miliwn ar wasanaethau cymdeithasol yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

40. Mae'r heriau ariannol sylweddol yn parhau yn 2024-25 a thu hwnt. Yn y flwyddyn ariannol nesaf mae pwysau o £261 miliwn sy'n cynrychioli cynnydd o 11.3% yn y cyllidebau presennol. Mae costau comisiynu, chwyddiant cyflogau a chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau yn cyfrif am £180 miliwn o'r pwysau, ac mae'r gweddill o ganlyniad i alw sy'n cyfrif am £81 miliwn. Mae £187 miliwn yn ychwanegol yn 25-26, a £198 miliwn yn 26-27 yn y drefn honno gan roi cyfanswm cronnol o £646 miliwn.

41. Mae gwasanaethau a gomisiynir, sy'n hanfodol i ddarpariaeth gofal cymdeithasol, gan ddarparwyr annibynnol hefyd yn cael eu heffeithio gan faterion tebyg i wasanaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae costau rhedeg uwch o ran staff ac ynni, yn ogystal â chynnydd o ran yswiriant a thanwydd, yn ychwanegu fwyfwy at bwysau ariannol sylweddol. Ynghyd â galw cynyddol, cymhlethdod anghenion a phrinder gweithlu, mae hyn wedi arwain at gostau uwch ac felly gwariant uwch i gynghorau ar gostau cynyddol lleoliadau ar draws gwasanaethau oedolion a phlant. Mae awdurdodau lleol wedi tynnu sylw at hyn fel risg sylweddol. Mae un awdurdod lleol yn nodi bod cartrefi preswyl a nyrsio yn ceisio codi ffioedd o tua 20% ac mae un arall wedi gweld cynnydd o tua 10% mewn ffioedd ym mhob un o'r ddwy flynedd ddiwethaf. Er bod codiadau yn cael eu cynnwys mewn cynllunio ariannol tymor canolig, mae pryderon yn parhau ynghylch y tebygolrwydd y bydd galw am gynnydd uwch ac felly costau pellach i awdurdodau lleol.

42. Mae'r arolwg yn dangos bod y farchnad gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn fregus, ac mae hyn yn effeithio ar gynaliadwyedd hirdymor y sector. Mae hefyd yn datgelu pryderon cynghorau ynghylch y galw cynyddol am wasanaethau oedolion a phlant, eu capasiti a'r adnoddau sydd ar gael i fodloni'r gofynion hyn, ynghyd â gostyngiadau yn yr ansawdd a'r dewis sydd ar gael. Mae anhawster recriwtio a chadw gweithwyr gofal yn parhau i fod yn bryder mawr a amlygwyd gan gynghorau. Er mwyn lliniaru rhai o'r heriau recriwtio a chadw mae rhai cynghorau yn parhau i orfod dibynnu ar ddefnyddio staff asiantaeth ac mae'r costau hyn yn ychwanegu ymhellach at bwysau ariannol yn y blynyddoedd i ddod.

43. Mae'r arolwg yn amlygu pryderon sy'n parhau i gael eu codi mewn perthynas â darparu pecynnau gofal. Mae galw cynyddol, ynghyd â diffyg darparwyr addas, wedi'i nodi'n flaenorol fel problem wrth ddarparu gofal cartref. Nododd awdurdodau lleol gynnydd yng nghymhlethdod y pecynnau cartrefi gofal y mae angen eu rhoi ar waith, ochr yn ochr â chostau cynyddol sy'n golygu y gall cynghorau ei chael yn anodd cael digon o gapasiti i allu diwallu'r angen a aseswyd a sicrhau bod y ddarpariaeth gofal yn gynaliadwy. Tynnwyd sylw hefyd at faterion yn ymwneud â mynediad at Ofal Iechyd Parhaus a oedd yn golygu bod awdurdodau lleol yn

[3]Mae cyfanswm gwariant refeniw net wedi'i gyllidebu ar £7.373 biliwn yn 2023-24 (Ffynhonnell: Ffurflenni Cyfrif Refeniw Llywodraeth Cymru)

parhau i orfod ariannu'r mwyafrif, os nad y cyfan, o'r pecynnau gofal hyn yn hytrach nag iechyd. Yn ogystal, mae rhai awdurdodau wedi cyfeirio at effeithiau ariannol 'Twristiaeth' Gofal Cymdeithasol lle mae cleientiaid yn symud draw o Loegr i elwa ar y terfynau trothwy cyfalaf mwy hael yng Nghymru wrth symud i gartref gofal. Mae Cynghorau hefyd yn gweld unigolion sydd wedi wynebu oedi cyn cael mynediad at ofal iechyd ac felly wrth gyrraedd y gwasanaethau cymdeithasol mae ganddynt anghenion mwy dibynnol sy'n mynnu darpariaeth gofal mwy costus.

44. Mae Cynghorau hefyd yn adrodd eu bod wedi gweld cynnydd yn y galw ac achosion mwy cymhleth mewn grwpiau cleientiaid penodol. Er enghraifft, mae pwysau a chostau pecynnau gofal a chymorth ar draws gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu wedi’u nodi yn yr ymatebion i’r arolwg. Tynnodd un awdurdod lleol sylw at y niferoedd cynyddol o bobl dan 65 oed ag anabledd dysgu sydd angen cymorth a fydd yn parhau am flynyddoedd i ddod.

45. Tynnwyd sylw at effeithiau'r argyfwng costau byw sy'n arwain at bwysau cynyddol ar deuluoedd sydd wedi golygu bod rhai cynghorau'n gweld cynnydd yn niferoedd y plant sy'n mynd i ofal. Mae pryderon yn parhau i gael eu hamlygu ynghylch yr heriau o ran dod o hyd i leoliadau priodol o ansawdd i blant a phobl ifanc. Yn benodol, darpariaeth annigonol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth gyda diffyg lleoliadau maethu a phreswyl. Tynnwyd sylw at lefelau digynsail yn niferoedd y rheiny a osodir mewn lleoliadau preswyl brys, mwy o ddefnydd o leoliadau annibynnol a mwy o bwysau i ddod o hyd i leoliadau maeth, ynghyd â chostau lleoliadau y tu allan i'r sir yn parhau i godi a'r galw am leoliadau arbenigol yn uwch na'r cyflenwad. Nodwyd costau wythnosol o hyd at £20,000 yr wythnos ar gyfer lleoliadau a dywedodd un awdurdod lleol fod cyllideb ei wasanaethau plant wedi gweld cynnydd o £11 miliwn (56%) dros y 3 blynedd diwethaf, a chynnydd o £6.6 miliwn (44%) mewn costau lleoliadau arbenigol dros yr un cyfnod.

46. Mae canlyniad y pwysau presennol ar leoliadau a systemau wedi golygu bod angen i awdurdodau lleol o dan rai amgylchiadau orfod ystyried sefydlu trefniadau lleoli pwrpasol ar gyfer plant a phobl ifanc sy’n gweithredu heb gofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae'r mathau hyn o leoliadau yn rhoi pwysau ychwanegol ar awdurdodau lleol, maent yn ddrud ac yn dargyfeirio cyllid oddi wrth waith atal i reoli lleoliadau. Mewn ymateb mae cynghorau yn ceisio creu eu darpariaeth fewnol eu hunain, ond mae hyn yn cymryd amser ac adnoddau i'w sefydlu.

47. Roedd yr ymatebion i'r arolwg hefyd yn cyfeirio rhywfaint at y cyfeiriad o ran polisi yng Nghymru sy’n arwain at bwysau ariannol cynyddol. Amlygwyd bod yr ymrwymiad i ddileu elw preifat o ofal plant sy’n derbyn gofal yn cael effaith andwyol ar argaeledd lleoliadau. Mae risgiau’n gysylltiedig â digonolrwydd y cyllid grant i dalu costau pontio yn llawn a nodwyd y risg bod posibilrwydd na fydd y cyfnod pontio yn ymestyn y tu hwnt i’r cyfnod ariannu presennol yn 2024-25. Roedd yr ymatebion i’r arolwg hefyd yn cydnabod bod yr angen i leoli plant drwy’r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol (NTS) wedi cynyddu pwysau o ran costau ac wedi

arwain at Blant ar eu Pen eu Pen eu Hunain sy’n Ceisio Lloches (UASC) yn aml yn cael eu lleoli y tu allan i’r sir/gwlad i ddiwallu eu hanghenion a nodwyd sy’n arwain at bwysau sylweddol o ran costau. O ganlyniad i ddyfarniadau llys diweddar, amlygwyd y gallai hyn arwain at gynnydd mewn plant UASC y bydd angen eu lleoli mewn lleoliadau sy’n prinhau o hyd.

48. Yn yr un modd, codwyd pryderon ynghylch lleihau’r Gronfa Integreiddio Ranbarthol ac adlewyrchwyd y byddai unrhyw ostyngiadau mewn lefelau cyllid grant ar draws y gwasanaethau cymdeithasol yn golygu bod angen cynnal adolygiadau o’r gwasanaethau a ddarperir a’r risg y byddai angen ystyried cynigion i leihau gwasanaethau fel rhan o hyn. . Tynnwyd sylw hefyd at weithrediad y Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol ac er bod cyllid yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi hyn, mae angen ystyried ymhellach effaith gwahaniaeth pris uwch staff/rheolwyr a phryderon nad yw cyllid yn cael ei ddarparu ar yr un cyflymder â’r costau ychwanegol sy’n gysylltiedig â gweithredu’r polisi hwn, gyda chynghorau’n gorfod parhau i gefnogi darparwyr i allu cyflawni’r ymrwymiad hwn. Un awgrym a gyflwynwyd gan gynghorau mewn ymateb i rai o’r heriau sy’n cael eu gweld yw’r angen i adolygu’r uchafswm tâl presennol ar gyfer gofal dibreswyl.

49. Yn gynharach eleni cyhoeddodd CLlLC waith ymchwil a oedd yn edrych ar yr heriau sy’n wynebu’r sector gofal cymdeithasol a blaenoriaethau llywodraeth leol ar gyfer gofal cymdeithasol. Nododd y gwaith ymchwil bod y system o dan bwysau aruthrol oherwydd: newidiadau demograffig cyflym ledled Cymru; effaith barhaus pandemig COVID-19; heriau gweithlu; anawsterau ariannu; a'r cynnydd mewn costau byw. Roedd materion gweithlu ar frig y rhestr o bryderon allweddol, ynghyd â diffyg cyllid cynaliadwy, a heriau sy'n gysylltiedig â diwallu anghenion mwy cymhleth. Mae amcangyfrifon ariannol y 22 o gynghorau yng Nghymru yn cefnogi’r casgliadau hyn ymhellach ond maent hefyd yn codi’r pryder gwirioneddol, gyda maint yr heriau ariannol sy’n cael eu hwynebu, na fydd lefel yr amddiffyniad sydd wedi’i roi i wasanaethau cymdeithasol hyd yma yn bosibl am lawer hirach gan beryglu gallu’r cynghorau i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn llwyddiannus yn y dyfodol.

Wcráin ac ymfudo ehangach

50. Mae Cymru’n falch o’i hanes o gefnogi pobl sydd wedi cyrraedd yn ceisio lloches ac wrth groesawu ffoaduriaid. Mae llywodraeth leol yn gweithio’n agos gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni uchelgais Cymru fel Cenedl Noddfa ac i ddatblygu dull seiliedig ar le sy’n adlewyrchu’r cyfraniadau y gall gwahanol ardaloedd eu gwneud yn y ffordd orau. Fodd bynnag, nid yw’r gwaith hwn heb ei gostau i gynghorau a chyrff cyhoeddus eraill, ac er bod lloches a mudo yn faterion a gadwyd yn ôl, mae’r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth y DU i dalu’r costau a ysgwyddir gan y cynghorau yn gyfyngedig.

51. Fel yr amlygwyd yn yr adran uchod, mae’r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol ar gyfer plant ar eu pen eu hunain yn bwysau cost sylweddol ar gynghorau. Er bod y Swyddfa Gartref yn darparu rhywfaint o gyllid, nid yw hyn yn ddigon i dalu costau llawn gofal, yn enwedig ar gyfer unrhyw achosion cymhleth ac wrth i nifer y plant UASC sy'n derbyn gofal gan gynghorau Cymru gynyddu, mae cynghorau ar eu colled yn ariannol. Mae'r cyllid ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal hefyd yn fach iawn ac wrth i'r grŵp hwn gynyddu bydd y bwlch ariannu hwn yn cynyddu hefyd.

52. Fodd bynnag, daw’r gost fwyaf o wasgaru ceiswyr lloches ar draws holl gynghorau Cymru, ond mae i’w gweld yn fwy amlwg yn yr ardaloedd gwasgaru lloches hirsefydlog. Mae’r cyllid a ddarperir gan y Swyddfa Gartref, a gyflwynwyd yn ddiweddar, yn fychan er gwaethaf llawer o effeithiau ar y lefel leol a gwasanaethau, er enghraifft, mynediad at dai, ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, cyngor a gwybodaeth.

53. Bydd y Broses Lloches Syml a gyflwynwyd yn ddiweddar wrth i’r Swyddfa Gartref anelu at glirio’r ôl-groniad o achosion lloches sy’n aros am benderfyniadau, yn effeithio’n sylweddol ar Gaerdydd, Abertawe, Casnewydd a Wrecsam o ran cyflwyniadau digartrefedd a gwasanaethau cymorth, sydd eisoes dan straen aruthrol ar hyn o bryd. Mae’n amlwg nad yw cynghorau’n cael eu hariannu’n ddigonol gan Lywodraeth y DU er mwyn cynllunio ac ymateb i effeithiau rhoi llety i geiswyr lloches ar lefel leol ac mae’n debygol y bydd y pwysau hwn yn cynyddu wrth i wasgariad llawn barhau.

<u>Tai a digartrefedd</u>

54. Mae Cymru wedi parhau â’r dull o “neb wedi’i adael allan” mewn perthynas â digartrefedd, yn dilyn diwedd yr argyfwng iechyd cyhoeddus. Cefnogir y dull hwn gan Gynghorau, ond mae nifer yr aelwydydd sy'n cysylltu â'r Cynghorau am gymorth wedi parhau i gynyddu. Mae’r cynnydd parhaus hwn mewn cyflwyniadau digartrefedd i Gynghorau yn y cyfnod ers y pandemig yn golygu bod mwyafrif llethol y gwasanaethau digartrefedd craidd bellach yn delio ag argyfyngau yn unig ac yn methu â gweithio i atal digartrefedd. Bydd y Papur Gwyn a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar ddigartrefedd hefyd yn rhoi pwysau ariannol ychwanegol ar gynghorau ac mae’n bwysig bod asesiad cadarn a thrylwyr o oblygiadau ariannol unrhyw gynigion deddfwriaethol yn cael ei gynnal, mewn partneriaeth, fel bod lefelau priodol o gyllid yn cael eu darparu o ran gweithredu.

55. Mae'r data diweddaraf yn adlewyrchu bod mwy na 11,000 o bobl mewn llety dros dro ar hyn o bryd. Daw hyn ar gost sylweddol i gyllidebau cynghorau ac nid yw lefel y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn cyd-fynd â’r cynnydd yn y galw ac mae’r adborth o’r arolwg a gynhaliwyd yn adlewyrchu gorwariant ar gyllidebau

digartrefedd ac yn bwysau ariannol cynyddol ar gynghorau. Cyfeiriodd un awdurdod at bwysau digartrefedd a gyfrannodd at orwariant o £660,000 yn y flwyddyn bresennol gan fod y galw yn fwy na'r gyllideb sydd ar gael. Mae’r gyllideb Cefnogi Pobl hefyd yn hollbwysig i gefnogi pobl ddigartref a’r rhai sydd mewn perygl, gan gynnwys cyllid i gyrff trydydd sector, ac mae CLILC yn pwysleisio’r angen i gynnal y lefel bresennol o gyllid os nad oes cyllid ychwanegol ar gael.

56. Mae adeiladu mwy o gartrefi yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gennym ddigon i bawb sydd eu hangen, pan fydd eu hangen. Mae’r Cynghorau hynny sydd â stoc tai yn gweithredu rhaglenni adeiladu newydd uchelgeisiol, ac yn ceisio caffael cartrefi presennol (sy’n aml yn gyn eiddo Hawl i Brynu) i gynyddu nifer y cartrefi sydd ar gael ar gyfer rhent cymdeithasol. Mae eraill yn gweithio gyda phartneriaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) i sicrhau yr eir i’r afael â’r angen a nodwyd am dai. Mae pob cyngor hefyd yn gweithio gyda phartneriaid LCC i adeiladu cartrefi rhent cymdeithasol carbon isel newydd. Mae’n bwysig felly sicrhau bod cyllid cyfalaf ar gael i gefnogi adeiladu tai cymdeithasol ar y cyflymder a’r raddfa sydd eu hangen i leihau dibyniaeth ar lety dros dro a sicrhau y gellir diwallu anghenion tai dinasyddion.

57. Mae cynghorau’n cefnogi cyflawni amcanion tai allweddol Llywodraeth Cymru, a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu, fodd bynnag, mae angen cyllid digonol i alluogi darpariaeth lwyddiannus. Yn ogystal â’r materion uchod, mae pwysau ariannol arall ym maes tai yn deillio o ddiwygio’r drefn diogelwch adeiladau, y Safon Ansawdd Tai Cymru ddiwygiedig, pwysau ar y gweithlu a llenwi unrhyw fylchau (er enghraifft adroddiad diweddar Archwilio Cymru ar Reoli Adeiladu) a’r uchelgeisiau mewn perthynas â datgarboneiddio mwy o gartrefi.

<u>Priffyrdd, Cludiant, Gwasanaethau Economaidd ac Amgylcheddol</u>

58. Mae gwaith cynnal a chadw hanfodol ar rwydweithiau priffyrdd a Theithio Llesol ac adeileddau cysylltiedig yn hanfodol ar sail diogelwch ac economaidd (ac i leihau hawliadau yswiriant), yn enwedig yn wyneb digwyddiadau tywydd mwy eithafol. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth refeniw ychwanegol drwy’r Fenter Benthyca Llywodraeth Leol (tua £170 miliwn rhwng 2012-13 a 2015-16) ac yna cyfres o grantiau refeniw gwerth tua £20 miliwn y flwyddyn. Yn 2021-22 roedd opsiwn ar gyfer gwariant priffyrdd fel rhan o ddyraniad cronfa gyfalaf gyffredinol o £70 miliwn y gellid ei ddwyn ymlaen i 2022-23 drwy ddadleoli. Fodd bynnag, ni ddyfarnwyd grant ar gyfer 2023-24.

59. Mae cefnogaeth i wasanaethau bysiau yn parhau i fod yn bryder mawr. Gyda’r Gronfa Pontio Bysiau (BTF) i fod i ddod i ben ym mis Mawrth 2024, bydd angen i wasanaethau bysiau ddychwelyd i gyfuniad o wasanaethau masnachol a

gwasanaethau cymorthdaledig o 1 Ebrill. Yn ystod 2022-23, ailgyfeiriwyd tanwariant ar y gyllideb Tocynnau Teithio Rhatach i'r BTF i gefnogi gwasanaethau. Fodd bynnag, wrth deithiau tocynnau teithio rhatach gynyddu'n raddol ar ôl Covid, rhagwelir y bydd y tanwariant yn llai yn 2023-24. Er y bydd yr incwm cynyddol o ad-daliadau tocynnau teithio rhatach yn help i weithredwyr, mae ansicrwydd ynghylch incwm i wasanaethau, ynghyd â'r angen i roi hysbysiad statudol o ganslo gwasanaeth, yn creu risg pellach o doriadau. Galwyd am arwydd cynnar o gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'n debygol y bydd dyraniadau rhanbarthol yn cael eu gwneud yn y lle cyntaf i hwyluso cynllunio’r rhwydwaith, ac yna i gynghorau unigol dendro gwasanaethau cymorthdaledig. Rhagwelir yn eang y bydd y costau tendro yn uchel oherwydd cynnydd mewn costau tanwydd a llafur yn arbennig. Bydd hyn hefyd yn effeithio ar gostau cludiant o'r cartref i'r ysgol lle disgwylir cynnydd sylweddol.

60. Mae prinder staff technegol a gyrwyr cerbydau HGV ac anawsterau recriwtio yn effeithio ar draws yr holl wasanaethau yn y meysydd hyn, gyda staff yn cael eu denu i ffwrdd gan gyflogau uwch mewn sectorau eraill. Mae hyn hefyd yn effeithio ar ymdrechion i redeg cynlluniau prentisiaeth i ddenu pobl newydd, oherwydd gallant gael eu denu i ffwrdd unwaith y byddant wedi'u hyfforddi.

61. Wrth i waith Cydbwyllgorau Corfforaethol, a disgwyliadau arnynt, godi, mae hon yn ffynhonnell arall o bwysau ariannol ar gynghorau. Mae gwaith yn dechrau ar Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae angen cydgysylltu hyn â’r defnydd o bŵer llesiant economaidd (pŵer sy’n cydredeg â chynghorau). Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu £125,000 i bob rhanbarth ar ôl cynhyrchu cynlluniau gweithredu’r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ond mae pob rhanbarth wedi nodi y bydd angen rhagor o gyllid i fwrw ymlaen â’r cynlluniau hyn mewn ffordd ystyrlon.

62. Bydd rheoliadau gweithle newydd a ddaw i rym o fis Ebrill 2024, sy’n gofyn am gyflwyno ffrydiau gwastraff ar wahân i’w casglu, yn cynyddu costau i ysgolion ac adeiladau’r cyngor. Gallent hefyd weld bod gofyn i gynghorau ddarparu casgliadau ar wahân o eiddo masnachol mewn achosion lle nad oes gwasanaeth sector preifat ar gael.

63. Mae costau ynni uwch wedi effeithio yn y meysydd gwasanaeth hyn, yn enwedig ar gostau casglu gwastraff, fflyd, ynni ar gyfer adeiladau a goleuadau stryd.

64. Mae clefyd coed ynn yn parhau i fod yn risg fawr, yn enwedig lle mae coed wrth ymyl y briffordd ac angen eu symud. Amcangyfrifwyd bod cyfanswm y costau bron i £15 biliwn ar gyfer Prydain Fawr i gyd. Heblaw am ddefnyddio cynllun Grant Adfer Gwyrdd tymor byr, nid oes unrhyw arian ychwanegol wedi'i roi i gynghorau ar gyfer y gwaith hanfodol hwn.

Cyfalaf

65. Casglodd yr arolwg dystiolaeth hefyd am raglenni cyfalaf a phwysau. Mae'r ymatebion yn nodi y bydd setliad refeniw tynn yn effeithio ar raglenni cyfalaf. Ar draws rhaglenni cyfalaf rydym yn gweld cynnydd mewn costau o'r adeg y cymeradwywyd y rhaglen ar y cam dichonoldeb, i'r cam dylunio a datblygu prosiectau cyfalaf, oherwydd y cyfraddau chwyddiant presennol ac ansefydlogrwydd y farchnad adeiladu. Gydag ychydig neu ddim cyllid ychwanegol ar gael, bu llawer o ail-flaenoriaethu rhwng cynlluniau a lleihau cynlluniau lle bo modd.

66. Mewn perthynas â Rhaglen Band B Ysgolion yr Ugeinfed Ganrif ar Hugain, mae llawer o awdurdodau yn adrodd am ostyngiad yn nifer y cynlluniau sydd bellach yn fforddiadwy yn erbyn yr hyn a ragwelwyd pan osodwyd y rhaglen gyntaf yn unol â'r amlen ariannu. Ar ôl cwblhau prosiectau Band A a'r mwyafrif o brosiectau Band B, mae cynghorau'n ystyried pa mor gynaliadwy fydd parhau i ddefnyddio benthyca, i gefnogi ei ganran o'r gyfradd ymyrryd wrth symud ymlaen i ailadroddiad nesaf y rhaglen, o ystyried effaith pwysau benthyca ar Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor (MTFS). Bydd dogni tebyg yn digwydd ar gyfer rhaglen nesaf Cymunedau Cynaliadwy LlC.

67. Pan fydd grantiau'n cael eu tynnu'n ôl, mae risgiau penodol i wasanaethau. Er enghraifft, mae cael gwared ar y Grant Adnewyddu Priffyrdd Cyhoeddus yn parhau i roi pwysau sylweddol ar yr adnoddau y gall cynghorau eu dyrannu i Gynlluniau Rheoli Asedau Priffyrdd. Gyda'r cynnydd mewn costau a'r gostyngiad yn y gyllideb, mae'n anodd cyflawni'r swm o waith sydd ei angen i gynnal y cyflwr cyson o fuddsoddiad sy'n ofynnol ar gyfer ail-wynebu, adeileddau, goleuadau stryd a goleuadau traffig.

68. Bydd effaith ansefydlogrwydd y farchnad yn parhau i gael ei monitro'n agos yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Gallai ail-broffilio cynlluniau o flynyddoedd blaenorol effeithio ar y gwaith cyflawni yn ystod y flwyddyn, gan arwain at lefel uchel o geisiadau dwyn ymlaen i ail-osod cyllidebau i raglen 2024-25.

69. Mae cyllid grant ychwanegol gan LlC bob amser yn cael ei groesawu a'i werthfawrogi, ond mae'r ffaith bod cymaint o hysbysiadau hwyr am gyllid yn ei gwneud hi'n anoddach disodli gwariant yn ystod y flwyddyn gyda grant. Byddai mwy o hyblygrwydd ynghylch pryd/sut y mae angen gwario'r grant yn fuddiol. Byddai hyn yn galluogi gwasanaethau â chynlluniau cynllunio i ddarparu gwerth am arian, a chefnogaeth gyda'r anghenion dybryd y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Byddai unrhyw arian cyfalaf sydd ar gael ar gyfer cynlluniau a fydd yn helpu i leihau pwysau refeniw mewn cysylltiad â digartrefedd a chostau y tu allan i'r sir hefyd yn cael ei groesawu.

70. Y brif ffynhonnell ariannu yw'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ac mae cyfraddau hirdymor yn tua 5% ar hyn o bryd, er bod llawer o ansefydlogrwydd yn y marchnadoedd. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r cyfraddau pan osodwyd rhaglenni cyfalaf ym mis Mawrth 2022. Mae hyn yn peri risg sylweddol i fforddiadwyedd a chynaliadwyedd, yn enwedig o ran cynlluniau tai ac isadeiledd asedau craidd helaeth y tybir y telir amdano drwy fenthyca.

Newid yn yr Hinsawdd

71. Mae cynghorau wedi gwneud nifer o ymrwymiadau i gyfrannu at y targed o allyriadau sero net yn y sector cyhoeddus erbyn 2030. Mae llawer o'r camau sydd eu hangen yn ymwneud â buddsoddi cyfalaf (e.e. mewn perthynas ag eiddo ac ynni, trawsnewid fflyd, datgarboneiddio tir). Bydd angen ystod eang o ffrydiau ariannu i wneud y math o newidiadau sydd eu hangen ar y cyflymder gofynnol. Gallai hynny gynnwys benthyca i dalu costau ymlaen llaw y bydd yn rhaid wedyn eu had-dalu o gyllidebau refeniw dros nifer o flynyddoedd. Gallai hefyd gynnwys prydlesu neu logi (e.e. ar gyfer cerbydau) yn hytrach na gwariant cyfalaf. Mae goblygiadau o ran y gweithlu y bydd angen mynd i'r afael â nhw, gan weithio gydag undebau mewn dull partneriaeth gymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys ailhyfforddi a recriwtio mewn llawer o achosion (e.e. cynnal a chadw cerbydau; rheoli ynni a'r amgylchedd; dulliau cyfrifyddu ariannol). Mae'r prinder llafur presennol mewn llawer o swyddi 'gwyrdd' mewn cynghorau wedi amlygu nid yn unig y prinder staff â'r sgiliau gofynnol, ond hefyd y gwahaniaethau mewn cyflogau gyda'r sector preifat, a bod cadw staff hyfforddedig yn broblem gynyddol.

72. Mae mesurau pwysig eraill yn ymwneud â chaffael, lle mae angen i gynghorau leihau allyriadau 'Cwmpas 3', sy'n ymwneud (ymysg pethau eraill) â'r nwyddau a'r gwasanaethau a brynir ganddynt. Lle mae cyflenwyr wedi datblygu cynlluniau carbon i leihau allyriadau sy'n gysylltiedig â'u nwyddau a'u gwasanaethau, bydd y costau uniongyrchol yn tueddu i fod yn uwch (er bod manteision amgylcheddol, a chymdeithasol ac economaidd ehangach yn aml – e.e. yn deillio o brynu'n lleol). Ar adeg o bwysau ariannol sylweddol, bydd yn her i gynghorau 'wneud y peth iawn' yn hytrach na dewis yr opsiwn mwyaf fforddiadwy.

73. Bydd camau gweithredu newid yn yr hinsawdd yn cael eu had-dalu (o ran addasu yn ogystal â lliniaru). Fodd bynnag, y materion dan sylw, yn gyntaf, yw'r amserlenni ar gyfer yr ad-daliad hwnnw ac, yn ail, nad yw llawer o'r manteision yn dod i'r cyngor mewn ystyr uniongyrchol neu ariannol. Yn hytrach, byddant yn aml yn cyfrannu at nodau lles ar gyfer y gymuned ehangach – er enghraifft mwy o swyddi lleol, bwyd iachach, amgylchedd o ansawdd gwell, enillion bioamrywiaeth, mwy o wydnwch yn erbyn tywydd eithafol yn y dyfodol. Y risg yw y bydd y mesurau angenrheidiol yn argyfwng o bwysau ariannol presennol, gan achosi iddynt gael eu gohirio, ond yn ddelfrydol dylid eu blaenoriaethu i sicrhau amseroldeb a'r effaith fwyaf bosibl.

74. Mae'r Panel Strategaeth Hinsawdd (CSP) wedi sefydlu pedwar grŵp tasg a gorffen, dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwyr, i oruchwylio ac ysgogi cynnydd mewn perthynas ag ymrwymiadau llywodraeth leol tuag at fod yn ddi-garbon net. Mae'r rhain yn cwmpasu meysydd allweddol caffael, cludiant, defnydd tir ac adeiladau. Mae'r CSP hefyd yn sefydlu grŵp i ganolbwyntio ar addasu. Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU wedi cynhyrchu dau adroddiad pwysig yn ddiweddar ar gynnydd yng Nghymru, a hynny ym meysydd lliniaru ac addasu sydd â goblygiadau ariannol i lywodraeth leol.

75. O ran **lliniaru/lleihau allyriadau**, gwnaeth y pwyntiau canlynol o berthnasedd i gynghorau (sy'n gofyn am gymysgedd o fesurau cyfalaf a refeniw):

- Rhaid cyflymu camau gweithredu cyffredinol ar ddatgarboneiddio
- Mae cynnydd ar wastraff ac ailgylchu, er ei fod yn hanesyddol dda yng Nghymru, wedi arafu ac mae angen ail-godi hyn.
- Mae angen mwy o ymdrech i drosglwyddo i ddefnyddio cerbydau trydan
- Mae angen cynlluniau hirdymor i ddatgarboneiddio adeiladau cyhoeddus, tai cymdeithasol a chartrefi sydd â thlodi tanwydd.
- Mae cyfraddau plannu coed ac adfer mawndir yn rhy isel, ac mae angen meithrin gallu a datblygu sgiliau

76. O ran **addasu/gwella gwytnwch** i newid yn yr hinsawdd, amlygodd:

- Mae gan yr hinsawdd newidiol risgiau i isadeiledd, ecosystemau, cymunedau a'r economi
- Mae angen gweithredu ar frys ar tua hanner y 61 o risgiau a chyfleoedd sydd wedi'u nodi ar gyfer Cymru cyn i gynllun addasu nesaf Llywodraeth Cymru gael ei gynhyrchu yn 2024.
- Nid oes digon o gynnydd o ran gweithredu mesurau ac mae'r monitro'n wael, sy'n ei gwneud yn anodd arfarnu cynnydd
- Mae diffyg eglurder o ran cyfrifoldebau ar gyfer ymateb i risgiau hinsawdd ar draws y sector cyhoeddus
- Os nad eir i'r afael â risgiau hinsawdd, ni fydd nodau cymdeithasol eraill yn cael eu cyflawni.

77. Mae gwaith y grwpiau tasg a gorffen yn cael ei lywio gan waith UKCCC. Mae llawer o'r hyn sydd angen ei wneud yn gofyn am gyfalaf ymlaen llaw a chyllid refeniw cefnogol. Fodd bynnag, mewn sawl achos bydd adenillon ariannol ar fuddsoddiad yn ogystal ag arbedion carbon. Mae yna hefyd arbedion ariannol mwy anniriaethol 'yn nes ymlaen' o ran atal gwariant yn y dyfodol o orfod ymateb i effeithiau newid hinsawdd (e.e. llifogydd, difrod i isadeiledd, cau ffyrdd, difrod stormydd, problemau iechyd ac ati). Mae cyllidebau cynnal a chadw yn aml yn dioddef ar adeg o gyfyngiadau ariannol, ond bydd yn hanfodol diogelu'r rhain er mwyn darparu'r gwytnwch sydd ei angen.

## Casgliad

78. I gloi, mae ein hamcangyfrifon presennol o bwysau yn parhau i fod yn hynod o uchel. Heb ragor o arian, mae awdurdodau lleol yn wynebu penderfyniadau amhosibl. Byddai unrhyw ddychwelyd i galedi yn drychinebus i'r gwasanaethau ataliol y mae llywodraeth leol yn eu darparu a'r bobl sy'n dibynnu arnynt. Byddai'n drychinebus i'r GIG sy'n dibynnu ar system ofal wedi'i hariannu'n dda ac yn gwbl ddigalon i'n gweithlu.

79. Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, bu diddordeb o'r newydd yng ngwydnwch ariannol awdurdodau lleol, yn enwedig gyda rhai enghreifftiau proffil uchel o fethiant yn Lloegr. Yn ôl CIPFA, gall achosion methiant fod yn gymhleth gydag un digwyddiad yn arwain rhai at gyhoeddi hysbysiadau a114. Fodd bynnag, mae'n amlwg i ni fod caledi a'r gostyngiadau parhaus mewn cyllid yn ffactor achlysurol sylfaenol cyson. Mae gan ein haelodau ein hunain fwy o ymwybyddiaeth a diddordeb yn y mater a'r hyn y gellir ei wneud i atal methiant ariannol.

80. Yr wythnos diwethaf cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyfres o fesurau cyllidebol i fynd i'r afael â'r broblem yn ystod y flwyddyn sydd wedi cronni. Er ein bod yn parhau i bryderu ynghylch sut y gallai hyn orlifo i 2024-25, rydym yn ddiolchgar bod y Gweinidog wedi diogelu gwasanaethau lleol ac rydym yn parhau i groesawu'r dull partneriaeth yr ydym wedi'i feithrin gyda Llywodraeth Cymru, a'r berthynas waith agos sydd wedi datblygu yn y blynyddoedd diweddar rhwng gweinidogion ac arweinwyr. Rydym wedi ymrwymo i barhau gyda'r dull hwnnw er mwyn diogelu ein blaenoriaethau a rennir rhag yr effeithiau gwaethaf o'r stormydd economaidd sydd i ddod.

---

**Cliriwyd gan:** Cynghorydd Anthony Hunt, Llefarydd CLlLC ar Gyllid

**Awduron:** Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau
Nathan Gardner, Rheolwr Cyllid

**Rhif ffôn:** [redacted]
**E-bost:** [redacted]

**ATODIAD I**

Pwysau ariannol a ragfynegir ar gyfer blwyddyn 2023-24 (dros y gyllideb)

| | Rhagolygon Pwysau Ariannol 2023-24 £000oedd |
|---|---|
| **A. Cysylltiedig ag Awdurdod Lleol** | |
| Pwysau chwyddiant cyflog | 17,078 |
| Pwysau chwyddiant nad yw’n gysylltiedig â chyflog | 12,901 |
| **Pwysau chwyddiant (sefydlog)** | 29,979 |
| **Pwysau Ariannol** | |
| a. Pwysau mewn perthynas â galw | 28,543 |
| b. Pwysau cyllido cyfalaf | - 2,218 |
| c. Gostyngiad mewn grantiau penodol | 2,013 |
| d. Blaenoriaethau lleol | 1,002 |
| e. Arall | 3,664 |
| **Pwysau Cyllideb ALl** | 33,004 |
| **Cyfanswm cysylltiedig ag ALl** | 62,983 |
| **B. Ysgolion** | |
| Pwysau chwyddiant cyflog | 10,064 |
| Pwysau chwyddiant nad yw’n gysylltiedig â chyflog | 10,875 |
| Ffioedd / Taliadau chwyddiant (positif) | |
| **Pwysau chwyddiant (sefydlog)** | 20,939 |
| **Pwysau Ariannol** | |
| a. Pwysau mewn perthynas â galw | 22,269 |
| b. Pwysau cyllido cyfalaf | - |
| c. Gostyngiad mewn grantiau penodol | 484 |
| d. Blaenoriaethau lleol | 100 |
| e. Arall | 3,588 |
| **Cyfanswm Pwysau Ysgolion** | 26,441 |
| **Cyfanswm Ysgolion** | 47,380 |

Pwysau ariannol a ragfynegir ar gyfer blwyddyn 2023-24 (parhad)

| | £000oedd |
|---|---|
| **C. Gwasanaethau Cymdeithasol** | |
| Pwysau chwyddiant cyflog | 5,281 |
| Pwysau costau comisiynu - Oedolion | 7,887 |
| Pwysau costau comisiynu - Plant | 5,314 |
| Pwysau chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflog | 3,866 |
| **Pwysau chwyddiant (sefydlog)** | 22,348 |
| **Pwysau Ariannol** | |
| a. Pwysau mewn perthynas â galw | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | |
| Gofal Cartref (gan gynnwys byw â chymorth) | 15,209 |
| Lleoliadau Preswyl | 20,578 |
| Arall | 9,896 |
| **Gwasanaethau Plant** | |
| Gofal Cartref | 4,052 |
| Lleoliadau Preswyl | 26,427 |
| Gofal Maeth | 2,132 |
| Arall | 8,119 |
| **Cyfanswm Pwysau Cyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol** | 86,412 |
| **Cyfanswm Pwysau GC** | 108,761 |
| **Cyfanswm pwysau ariannol a ragfynegir (A+B+C)** | 219,123 |

**ATODIAD II**

**Pwysau ariannol a ragfynegir, 2024-25 i 2026-27**

## Arolwg Pwysau Cymdeithas Trysoryddion Cymru 2024-25

**Awdurdodau Unedol gan gynnwys (Gwasanaethau Tân ac Achub)**

| | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 |
|---|---|---|---|
| **A. Cysylltiedig ag Awdurdod Lleol** | | | |
| Pwysau chwyddiant cyflog | 109,550 | 82,457 | 83,391 |
| Pwysau chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chy | 68,231 | 53,844 | 55,921 |
| **Pwysau chwyddiant ALl (sefydlog)** | 177,780 | 136,301 | 139,313 |
| **Pwysau Cyllideb** | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 |
| a. Pwysau mewn perthynas â galw | 49,074 | 28,308 | 30,858 |
| b. Pwysau cyllido cyfalaf | 29,199 | 18,402 | 13,314 |
| c. Gostyngiad mewn grantiau penodol | 2,418 | 4,536 | 2,870 |
| d. Blaenoriaethau lleol | 1,857 | 899 | 1,538 |
| e. Arall | 34,896 | 6,530 | 7,670 |
| **Pwysau Cyllideb ALl** | 117,443 | 58,675 | 56,250 |
| **Cyfanswm cysylltiedig ag ALl** | **295,223** | **194,976** | **195,563** |
| **B. Ysgolion** | | | |
| Pwysau chwyddiant cyflog | 115,656 | 101,097 | 100,866 |
| Pwysau chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chy | 29,400 | 17,862 | 18,268 |
| **Pwysau chwyddiant (sefydlog)** | 145,055 | 118,959 | 119,134 |
| **Pwysau Cyllideb** | | | |
| a. Pwysau mewn perthynas â galw | 8,479 | 10,917 | 9,232 |
| b. Pwysau cyllido cyfalaf | 633 | 2,243 | 1,351 |
| c. Gostyngiad mewn grantiau penodol | 1,528 | 282 | 20 |
| d. Blaenoriaethau lleol | 1,357 | 546 | 387 |
| e. Arall | 6,853 | 942 | 673 |
| **Cyfanswm Pwysau Cyllideb Ysgolion** | 18,849 | 14,930 | 11,663 |
| **Cyfanswm Ysgolion** | **163,905** | **133,890** | **130,797** |

**Pwysau ariannol a ragfynegir, 2024-25 i 2026-27 (parhad)**

## Arolwg Pwysau Cymdeithas Trysoryddion Cymru 2024-25

**Awdurdodau Unedol gan gynnwys (Gwasanaethau Tân ac Achub)**

| | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 |
|---|---|---|---|
| **A. Cysylltiedig ag Awdurdod Lleol** | | | |
| Pwysau chwyddiant cyflog | 109,550 | 82,457 | 83,391 |
| Pwysau chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chy | 68,231 | 53,844 | 55,921 |
| **Pwysau chwyddiant ALl (sefydlog)** | 177,780 | 136,301 | 139,313 |
| **Pwysau Cyllideb** | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 |
| a. Pwysau mewn perthynas â galw | 49,074 | 28,308 | 30,858 |
| b. Pwysau cyllido cyfalaf | 29,199 | 18,402 | 13,314 |
| c. Gostyngiad mewn grantiau penodol | 2,418 | 4,536 | 2,870 |
| d. Blaenoriaethau lleol | 1,857 | 899 | 1,538 |
| e. Arall | 34,896 | 6,530 | 7,670 |
| **Pwysau Cyllideb ALl** | 117,443 | 58,675 | 56,250 |
| **Cyfanswm cysylltiedig ag ALl** | **295,223** | **194,976** | **195,563** |
| **B. Ysgolion** | | | |
| Pwysau chwyddiant cyflog | 115,656 | 101,097 | 100,866 |
| Pwysau chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chy | 29,400 | 17,862 | 18,268 |
| **Pwysau chwyddiant (sefydlog)** | 145,055 | 118,959 | 119,134 |
| **Pwysau Cyllideb** | | | |
| a. Pwysau mewn perthynas â galw | 8,479 | 10,917 | 9,232 |
| b. Pwysau cyllido cyfalaf | 633 | 2,243 | 1,351 |
| c. Gostyngiad mewn grantiau penodol | 1,528 | 282 | 20 |
| d. Blaenoriaethau lleol | 1,357 | 546 | 387 |
| e. Arall | 6,853 | 942 | 673 |
| **Cyfanswm Pwysau Cyllideb Ysgolion** | 18,849 | 14,930 | 11,663 |
| **Cyfanswm Ysgolion** | **163,905** | **133,890** | **130,797** |